

Adroddiad Blynyddol 2022-23

Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Cyngor Sir Caerfyrddin



Adroddiad Blynyddol

Tudalen Mynegai

Rhagair

Tudalen 3

Cylch Gwaith y Pwyllgor

Tudalen 4

Aelodaeth

Tudalen 5

Cyfarfodydd a phresenoldeb

Tudalen 6

Materion a chanlyniadau allweddol 2022-23

Tudalen 7-8

Gwybodaeth Gyffredinol

Tudalen 9

ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2022-23

Rhagair gan Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Fel Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ystod 2022-23, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer y cyfnod hwn.

Yn sgil yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022 a'r adolygiad o ffiniau llywodraeth leol, cynyddodd nifer y Cynghorwyr a etholwyd yn Sir Gaerfyrddin o 74 i 75. O blith y 75 o Gynghorwyr a etholwyd, roedd 28 yn aelodau newydd.

Yn dilyn yr etholiad, darparwyd rhaglen sefydlu gynhwysfawr i aelodau newydd a'r rhai oedd yn dychwelyd. Roedd y rhaglen yn sicrhau bod gan yr aelodau yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen i ymgymryd â rôl Cynghorydd Sir ac roedd yn cynnwys :-

- Hyfforddiant ynghylch offer TG a ddarparwyd, Modern.gov, sef yr ap gweithio'n ddi-bapur, a phlatfformau ar gyfer ymuno â chyfarfodydd aml-leoliad o bell;
- Amlinelliad o brif swyddogaethau'r Cyngor, Cyfansoddiad y Cyngor a chyfrifoldebau pob gwasanaeth;
- Trosolwg o'r sefydliad a'i swyddogaethau allweddol;
- Dealltwriaeth o'r prif strategaethau a'r weledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau yn Sir Gaerfyrddin.

Er mai unwaith yn unig y cyfarfu Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, cyfarfu aelodau'r Pwyllgor yn anffurfiol i weld a chyfrannu at borth wedi'i ddiwygio ac wedi'i ddiweddarau ar gyfer ymholiadau gan Aelodau Etholedig, ac roedd ein hadborth yn rhan o'r adroddiad terfynol a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor ym mis Mehefin 2023.

Hoffwn fynegi fy niolch a gwerthfawrogiad i aelodau'r Pwyllgor am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau gwerthfawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a hefyd i'r swyddogion sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor hwn.

Y Cynghorydd Lewis Davies

Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Cylch Gwaith y Pwyllgor

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor Sir a Chyngor Bwrdeistref Sirol sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a nodir cylch gwaith y Pwyllgor yn Adran 11 y mesur hwn, sef:-

- arfer swyddogaeth yr Awdurdod Lleol o dan adran 8(1)(a) (dynodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd),
- adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr Awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a
- llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Awdurdod mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno.

Yn ei gyfarfod ar 17 Ebrill 2013, cytunodd y Cyngor ar argymhelliad gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i gynnwys y cyfrifoldebau ychwanegol canlynol yn rhan o swyddogaethau/cylch gorchwyl y Pwyllgor:-

- Sicrhau bod cyfleoedd hyfforddiant a datblygu rhesymol yn cael eu darparu i Gynghorwyr a llunio adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor ynghylch y ddarpariaeth honno;
- Penodi Hyrwyddwr Datblygu Aelodau ar gyfer y Cyngor;
- Bod yn ymgynghorai ynghylch gweithredu adroddiadau a gyhoeddid gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol am lwfansau'r aelodau ac ati;
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da gan y Cyngor.

Ychwanegodd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 adran 11A sy'n nodi y gall Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, ar gais yr Awdurdod, adolygu unrhyw fater sy'n berthnasol i'r canlynol:

(a) y cymorth a'r cyngor sydd ar gael i aelodau'r Awdurdod hwnnw, a

(b) telerau ac amodau swydd yr aelodau hynny.

Aelodaeth Pwyllgor y Gwasanaethau Democraidd 2022-2023

Roedd aelodaeth Pwyllgor y Gwasanaethau Democraidd rhwng 25 Mai 2022 a 24 Mai 2023 yn cynnwys 5 aelod sy'n wleidyddol gytbwys.

Y Cyngorydd Lewis Davies (Cadeirydd)



Y Cyngorydd Tyssul Evans (Is-gadeirydd)



Y Cyngorydd Hazel Evans



Y Cyngorydd Fiona Walters



Y Cyngorydd Philip Warlow



Cyfarfodydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd yn ystod 2022-23

8 Medi 2022

Presenoldeb Aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Nodir y ffigurau presenoldeb ar gyfer cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor isod.

Y Cynghorydd	Cyfarfodydd a fynychwyd
Lewis Davies	1
Hazel Evans	0
Tyssul Evans	1
Fiona Walters	1
Philip Warlow	1
Kim Broom	1 (dirprwy)

MATERION A CHANLYNIADAU ALLWEDDOL 2022-23

Yn ystod y flwyddyn, trafododd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiadau canlynol, a chynhwysir crynodeb byr ar gyfer pob pwnc a chanlyniad fel sy'n briodol:-

Swyddogaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Hyrwyddwr Datblygu Aelodau yr Awdurdod.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried rôl a swyddogaeth y Pwyllgor a'r fframwaith yr oedd y Pwyllgor wedi'i sefydlu oddi mewn iddo o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Canlyniad:-

Ailgadarnhaodd y Pwyllgor benodi Cadeirydd y Pwyllgor yn Hyrwyddwr Datblygu Aelodau yr Awdurdod.

Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Raglen Sefydlu'r Aelodau

Cafodd y Pwyllgor adroddiad ynghylch rhaglen sefydlu'r aelodau a lanswyd ar 18 Mai 2022 ac a oedd yn cynnwys cyfanswm o 40 sesiwn ddatblygu ar gyfer yr aelodau oedd yn dychwelyd a'r rhai oedd newydd eu hethol. Cafodd yr aelodau gyfle i fynychu'r rhan fwyaf o'r sesiynau naill ai o bell drwy Zoom a/neu wyneb yn wyneb yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin. Cafodd rhai sesiynau eu recordio ac roedd y rhain ar gael ar ôl hynny drwy'r platfform e-ddysgu.

Canlyniad:-

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y manylion presenoldeb ym mhob sesiwn ddatblygu gan gefnogi cynnal Grwpiau Ffocws i gael adborth gan aelodau.

Polisi cyfarfodydd aml-leoliad

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad a argymhellwyd gan Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad yr Awdurdod. Nodwyd, ers cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r pŵer a'r rhyddid i Gyngorau gynnal cyfarfodydd aml-leoliad (hybrid – cymysgedd o fod yn bresennol wyneb yn wyneb ac o bell) gan alluogi mwy o hygyrchedd a chyfranogiad y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau llywodraeth leol. Roedd y polisi cyfarfodydd aml-leoliad yn rhoi arweiniad i Gyngorwyr, Swyddogion a'r cyhoedd ynghylch sut roedd yr Awdurdod yn rheoli ac yn cynnal ei gyfarfodydd aml-leoliad ac roedd y polisi i fod i gael ei ystyried ochr yn ochr â'r trefniadau presennol ar gyfer cyfarfodydd fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, ond ni fyddai'n cael ei gynnwys yn y Cyfansoddiad ei hun.

Canlyniad:-

Cyflwynodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, y Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad i'r Cyngor ar 12 Hydref 2022 a phenderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r polisi. Mae copi o'r [polisi aml-leoliad](#) ar gael ar y wefan.

Arolwg Amserau Cyfarfodydd

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, bu'r Pwyllgor, yn dilyn yr etholiad llywodraeth leol ym mis Mai 2022, yn ystyried canlyniadau arolwg a oedd yn gofyn am farn yr Aelodau o ran amserau cyfarfodydd a'r adegau y cynhelir cyfarfodydd yr awdurdod lleol. Nododd y Pwyllgor fod 53 aelod allan o 75 wedi ymateb i'r arolwg a bod y rhan fwyaf o'r aelodau wedi nodi y byddai'n well ganddynt gadw'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd a oedd ar waith yn y Cyngor blaenorol.

Canlyniad:-

Cyflwynodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, ganfyddiadau'r arolwg i'r Cyngor ar 12 Hydref 2022 gan argymhell na ddylid newid y trefniadau presennol ar gyfer cyfarfodydd. Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r argymhelliad. Gan gofio na fyddai aelodau newydd o bosibl wedi bod yn ymwybodol o'r galw ar eu hamser a'r gofyniad am eu presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor cytunodd y Prif Weithredwr yn y cyfarfod y gellid cynnal arolwg pellach ar ôl 12 mis.

Blaenraglen Waith

Cytunodd y Pwyllgor ar ei Flaenraglen Waith ar gyfer y 12 mis nesaf.

Gwybodaeth Gyffredinol

Mae cyfarfodydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn gyfarfodydd cyhoeddus ac mae pob cyfarfod yn cael ei gynnal yn gyhoeddus, ac eithrio eitemau cyfrinachol. Cyhoeddir yr holl bapurau cyhoeddus ar-lein ar <https://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/ieListMeetings.aspx?Committeeld=152>

Mae'r Cyngor yn awyddus i weld aelodau o'r cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a holl gyfarfodydd eraill y Cyngor, gan gynnwys cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet, Craffu a Rheoleiddio. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein [Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd](#).

Gall y Gwasanaethau Democrataidd ddarparu rhagor o wybodaeth:

GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk neu ar 01267 224028.